RHEOLWR AD GWASANAETHAU POBL (CYFFREDINOL)

Cytundeb sefydlog 12 mis

RHIF Y SWYDD: 505445

GRADD: 16 (£46,464 i £47,420)

37 awr yr wythnos

Proffil y Rôl

Cododd swydd gyffrous o fewn Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Wedi'i leoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth yn Llantrisant, mae'r swydd tymor sefydlog hon yn ffurfio rhan o seilwaith ehangach adran Gwasanaethau Pobl. Yn adrodd i'r Pennaeth Gwasanaethau Pobl (PGP), bydd y Rheolwr AD (RhAD) yn cefnogi'r tîm Rheoli Gwasanaethau Pobl i ddarparu blaenoriaethau allweddol y Gyfarwyddiaeth.

Bydd y RhAD yn cyfrannu at adeiladu diwylliant cadarnhaol, croesawgar, cydlynus a chynhwysol, gan gefnogi'r tîm ehangach wrth sefydlu prosesau tryloyw ar gyfer y siwrne gyfan i weithwyr o'r Broses Ddethol i Gychwyn Swydd, A'au P, Dyrchafiadau a Gwobrwyo.

Bydd y RhAD yn cefnogi rheolwyr y gyfarwyddiaeth wrth gyd-reoli tîm gwasanaethau pobl canolog i sicrhau gweithrediadau pobl cyfannol, diasiad a chyson o ddydd i ddydd; gan gefnogi'r timau Partner Busnes ac Ymgynghrowyr i ddarparu'n effeithiol ac effeithlon ar eu hamcanion wrth:

- ~ sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r Gyfarwyddiaeth i ddarparu holl weithgareddau gwasanaethau pobl gweithredol hyd safon sy'n gyson uchel.
- ~ gan gefnogi'r Pennaeth Gwasanaethau pobl i ddiffinio'r prosesau, anghenion system, Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG), Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a Gwybodaeth Reoli (GR) i'r holl weithgarwch pobl craidd yn unol â'n polisïau a'n huchelgeisiau strategol.
- ~ cynorthwyo wrth ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n ymwneud â phobl, gan fabwysiadu dull systematig sy'n datblygu, monitro a gwella pob gweithgaredd gwasanaethau pobl gweithredol yn barhaus.

Ychydig o resymau pam mai chi fydd, o bosib, y person cywir ar gyfer y rôl:

- ~ Bydd gan y person cywir brofiad rheoli AD cyffredinol arddangosadwy.
- ~ Byddwch yn gallu hyfforddi ac ysgogi'r tîm ehangach i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posib i'n cydweithwyr.
- ~ Byddwch yn gallu adnabod cyfleoedd arbedion effeithlonrwydd a chynnig agweddau a phrosesau amgen.

- ~ Byddwch yn gallu annog diwylliant o welliant parhaus, perchnogaeth ac ysfa i ddarparu gwasanaeth rhagweithiol sydd â chanolbwynt ar ddatrys.
- ~ Byddwch yn gallu cynhyrchu adrodd o ansawdd a mewnwelediad i ddylanwadu ar agwedd at bobl sydd wedi'i ysgogi gan ddata, gyda chyfrifoldeb am adrodd a dadansoddi misol.
- ~ Byddwch yn gallu gweithio'n agos â'r tîm pobl ehangach i sicrhau cydymffurfiaeth ag a chysondeb prosesau pobl.
- ~ Byddwch yn gallu mapio, goruchwylio a gwella prosesau gweithredol ar hyd cylch bywyd y gweithiwr wrth ddefnyddio data a mewnwelededd i adnabod y mannau cyffwrdd fydd yn dyrchafu profiad y gweithiwr.
- ~ Byddwch yn gallu cefnogi'r Tîm Pobl ehangach a'n harweinwyr wrth reoli ein pobl a'n hadnoddau, gan sicrhau profiad gweithiwr rhagorol.

Nid ydym yn chwilio am rywun fydd yn eistedd lawr a dweud "gwneith hynny'r tro". Mae angen i ni weithredu gyda meddylfryd chwimwth o fewn amgylchedd cyflym, yn chwilio i wella ac esblygu'n barhaus ar bob adeg.

Byddwn yn rhoi gwerth ar fod yn gadarnhaol, gyda chwimder, arloesedd a bod yn ardderchog i weithio â hwy. Mae ein nodau ledled Cyfarwyddiaeth a Gwasanaeth uchelgeisiol yn cyflwyno cyfle anhygoel am newid. Byddwn yn gweithio'n galed i ddarparu, ac mae yna lawer i'w wneud, ond mae'r gallu i gael effaith yma'n ddi-ddiwedd.

Beth sy'n bwysig i ni?

- ~ Profiad rheoli AD profedig mewn amgylchedd cyflym, undebol, tyfiant uchel a blaengar/neu flaengar, gyda chymwysterau lefel gradd, lleiafswm L5 CIPD neu gyfatebol.
- ~ Bydd gennych ogwydd at berfformiad gyda phrofiad o ddarparu profiad gweithiwr llwyddiannus, yn cefnogi prosesau rheoli newid yn ystod cyfnodau o newid sylweddol.
- ~ Hanes hir profedig o reoli a chefnogi tîm mawr i ddarparu amryfal brosiectau ar draws sbectrwm o swyddogaethau AD, gyda blaenoriaethau croes a gofynion amrywiol gan randdeiliaid, wrth weithredu i derfynau amser tynn.
- ~ Gwybodaeth gadarn o ddeddfwriaeth gyflogaeth a sut i'w gymhwyso.
- ~ Profiad o ddarparu cyflwyniadau a hyfforddiant i amrywiol gynulleidfaoedd ar bob lefel.
- ~ Profiad o arwain digwyddiadau graddfa fawr a chynlluniau/neu gynlluniau hyfforddi gyda golwg at sylwi ar gyfleoedd hyfforddi sy'n helpu'r sefydliad ddatblygu sgiliau, cymhwystra ac ymddygiadau.
- ~ Sgiliau gwasanaeth cwsmer a datrys problemau rhagorol.
- ~ Meddylfryd blaengar ac â'r gallu i ddatrys problemau'n annibynnol, gyda llwyth o flaengarwch, ynni ac ysgogiad personol.
- ~ Y gallu i weithio'n gydweithredol yn effeithiol ac yn effeithlon gydag amryfal gyfranddalwyr (yn fewnol ac allanol) i sicrhau cyflawni cynlluniau Cyfarwyddiaeth. Fe fyddwch yn angerddol ynghylch pobl

ac yn awyddus i helpu saernïo'r amgylchedd gwaith o fewn GTADC, yn ei wneud yn le croesawgar, cynhwysol a chyffrous.

- ~ Mae'r gallu i gynnal cyfrinachedd a gweithredu gyda disgresiwn a doethineb yn angenrheidiol.
- ~ Byddwch yn talu sylw at fanwl gywirdeb a blaenoriaethu sicrhau bydd gennym ddata glân, yn poeni ynghylch cael pethau'n iawn y tro cyntaf un ac â'r gallu i gynhyrchu metrics credadwy, gan feddu ar sgiliau cyfathrebu clir, cryno a dylanwadol yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- ~ Byddwch yn chwilfrydig - yn meddu ar y sgiliau i adnabod cyfleoedd sy'n ceisio gwella perfformiad y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl, gan eithafu'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon o wasanaethau yn y modd mwyaf cost effeithiol.

Cais:
i ymgeisio ar gyfer y rôl hon, dylai ymgeiswyr ddarllen y meini prawf cymhwystra dilynol yn llawn ac ymateb yn fanwl i'r 5 maen prawf rhestr fer a amlinellwyd wrth atodi'r ddogfen rhestr fer i'w cais ar-lein.

Dylid cwblhau ffurflenni cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei gyrchu drwy law ein gwefan: https://www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us/latest-vacancies/. Yn ystod y broses, anogir ymgeiswyr i wirio pob ffolder e-bost am ddiweddariadau a gynhyrchwyd gan y system. Os oes angen fersiwn bapur, e-bostiwch: personél@decymru-tan.gov.uk. **NID YDYM YN DERBYN FFURFLENNI CV FEL RHAN O'R CAIS. A FYDDECH CYSTAL Â CHWBLHAU'R CAIS AR-LEIN YN LLAWN, GAN UWCHLWYTHO EICH MEINI PRAWF RHESTR FER O FEWN YR ADRAN TYSTIOLAETH GEFNOGOL GAN DDEFNYDDIO'R TEMPLED A DDARPARWYD.**

Ymgeiswyr Allanol - A fyddech cystal â nodi bydd penodiadau i'r rôl hon yn amodol ar ymgymryd â gwiriad estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwch yn ymwybodol bydd y gwiriad hwn yn synhwyro unrhyw gollfarnau neu orchmynion treuliedig neu anhreuliedig. Cyn y gwneir unrhyw gynigion ffurfiol, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Alcohol a Chyffuriau.

Dyddiad cau - 12:00 hanner dydd ar Ddydd Llun yr 22ain o Orffennaf 2024

MEINI PRAWF CYMHWYSTRA
Rhaid i'r ymgeiswyr allu cynnig tystiolaeth ynghylch y meini prawf dilynol:

1. Profiad Rheoli Adnoddau Dynol cyffredinol profedig a grymus
2. Cymhwyster Lefel 5 CIPS neu gyfatebol
3. Profiad o newid a rheoli prosesau

GOFYNION Y RHESTR FER:
A fyddech cystal ag amlinellu, mewn dogfen Word, sut rydych yn cwrdd â phob un o'r 5 maes meini prawf rhestr fer canlynol mewn dim llai na 300 gair ar gyfer pob maen prawf (cyfanswm o 1500 o eiriau)

1. **Cymhwystra** - A fyddech cystal ag amlinellu sut rydych yn cwrdd â gofynion y meini prawf cymhwystra ar gyfer y rôl hon.
2. **Effaith Bersonol -** A fyddech cystal ag amlinellu sut rydych wedi bod yn fodel rôl ac wedi mentora eraill ynghylch sut maen nhw'n cyfathrebu ac ymgysylltu i greu amgylchedd gwaith sy'n ddiwylliannol gynhwysol.
3. **Arweinyddiaeth Ragorol** A fyddech cystal ag amlinellu sut rydych wedi gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i osod gwaith ac amcanion clir ar gyfer eich tîm, gan fonitro perfformiad eich tîm yn weithredol ynghyd â darparu adborth lle bo'n bosib
4. **Darparu Gwasanaethau** – A fyddech cystal ag amlinellu sut rydych wedi chwilio'n flaenorol am gyfleoedd i weithio'n gydweithredol ar draws timau a swyddogaethau i wella darparu gwasanaethau.
5. **Effeithiolrwydd Sefydliadol** – A fyddech cystal ag amlinellu sut rydych wedi cymryd perchnogaeth o newid ac wedi helpu eraill i ddeall, addasu, cyflawni a chorffori newid.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith a'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam rhestr fer i ddewis eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Rydym yn credu mewn gwir werth meddu ar weithlu amrywiol ac yn annog ceisiadau o bob sector o fewn ein cymuned.